

Cyfeirnod y ddogfen:	298A2016
Dyddiad cymeradwyo:	17 Chwefror 2016
Adolygiad nesaf:	Chwefror 2019
Cyswllt:	Rheolydd Cynllunio ac Adrodd 029 2032 0500

## Polisi Addasiadau Rhesymol (Allanol)

### Cyflwyniad

1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw ein harferion yn golygu fod pobl gydag amhariadau<sup>1</sup> dan anfantais sylweddol oherwydd yr amhariadau hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd arnom i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, hynny yw rhoi sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthynas dda.
2. Mae'r polisi yma'n egluro ein ffyrdd cyffredinol o gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom. Nid yw'n ceisio egluro sut y deliwn â phob sefyllfa. Rhaid i bob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y gofynion hyn wrth ymwneud ag aelodau a staff y cyrff yr ydym yn eu harchwilio, sefydliadau eraill a'r cyhoedd. Ceir polisi ar wahân ar gyfer delio â materion cyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru.

### Yr addasiadau rhesymol a wnawn

3. Yr amhariadau a gynhwysir yn Neddf 2010 yw amhariadau corfforol a meddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol dydd i ddydd. Rhaid inni gymryd y camau rhesymol angenrheidiol i sicrhau nad yw'r modd y gweithredwn ein swyddogaethau yn rhoi person gydag amhariad dan

<sup>1</sup> Mae Deddf 2010 yn defnyddio'r term anabledd ("**disability**"). Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r **Model Anabledd Cymdeithasol** gan gydnabod y ffaith fod pobl ag anabledau yn wynebu'r sefyllfa honno oherwydd rhwystrau amgylcheddol, sefydliadol ac ymagweddol mewn cymdeithas. Y diffiniadau allweddol yn y Model Cymdeithasol yw:

- a) Amhariad yw anaf, salwch neu gyflwr genedigol sy'n achosi neu'n debyg o achosi effaith hir dymor ar olwg y corff a/neu cyfyngu gallu unigolyn yn wahanol i'r drefn arferol.
- b) Anabledd yw colli neu gyfyngu cyfleoedd i fod yn rhan o gymdeithas ar sail gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau sefydliadol, amgylcheddol ac ymagweddol.

Awgryma'r Model Anabledd Cymdeithasol mai priodol yw cyfeirio at bobl ag "**amhariad**" yn hytrach na phobl ag "anabledd". Felly mae'r polisi hwn yn defnyddio'r term "amhariad".

---

anfantais sylweddol o gymharu â pherson heb yr amhariad hwnnw. Mae'r ddyletswydd yma'n cynnwys ystyried beth ellir ei wneud i oresgyn anfantais o'r fath ac ystyried a ellir gwneud addasiad rhesymol yng ngoleuni holl amgylchiadau'r achos. Gall olygu fod rhai pobl gydag amhariad yn cael eu trin yn fwy ffafriol na phobl eraill. Mae'r gyfraith yn caniatáu triniaeth ffafriol o'r fath yn y cyd-destun hwn.

4. Enghreifftiau o'r math o addasiadau rhesymol posibl yw:
  - caniatáu rhagor o amser mewn cyfweiliadau er mwyn helpu pobl i ddeall y cwestiynau a gânt;
  - gwneud nodyn ysgrifenedig o geisiadau am wybodaeth gan bobl sy'n cael anhawster ysgrifennu;
  - cyfathrebu trwy lythyr neu e-bost yn hytrach nag ar lafar i helpu pobl gyda nam ar eu lleferydd;
  - darparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i bobl gyda nam ar y clyw; a
  - darparu gwybodaeth mewn ffont fawr neu ar ffurf glywedol i gwrdd ag anghenion pobl gyda nam ar y golwg.

## Rhoi gwybod am yr addasiadau

5. Defnyddiwn y ffyrdd a ganlyn i roi wybod i bobl y gallwn wneud addasiadau rhesymol:
  - gofyn i bobl yn ein gohebiaeth gyntaf, ee llythyrau cydnabod, a oes ganddynt amhariad ac a ydynt angen addasiad;
  - cyhoeddi'r polisi hwn ar ein gwefan; a
  - cysylltu â grwpiau cynrychioliadol ac eraill i ddwyn sylw at y polisi hwn.
6. Heblaw am addasiadau sy'n gyffredinol briodol, byddwn yn osgoi gwneud rhagdybiaethau ynghylch a yw person angen addasiadau neu beidio, a natur yr addasiadau hynny. Byddwn yn trafod ceisiadau am addasiadau gyda'r person dan sylw a dod i gytundeb ynghylch beth fyddai'n rhesymol yn yr amgylchiadau perthnasol.

## Cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

7. Yn ogystal â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer amhariad, byddwn hefyd yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sef ein dyletswydd i roi sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthynas dda. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob nodwedd warchoddedig.

---

## Gwneud cais am addasiadau rhesymol

- Os yw person o'r farn ei fod ef/hi angen addasiadau rhesymol gall gyflwyno cais, ar lafar neu mewn ysgrifen, i staff Swyddfa Archwilio Cymru neu i'r bobl y mae'n delio â nhw sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru.

## Ymateb i geisiadau am addasiadau rhesymol

- Pryd bynnag y mae aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu berson sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn y byddai'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud addasiad mewn ymateb i gais, dylid gwneud hynny heb oedi. Os yw aelod o Swyddfa Archwilio Cymru neu ddarparwr gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ansicr ynghylch yr ymateb priodol, dylai gysylltu â Thîm Cyfraith a Moeseg Swyddfa Archwilio Cymru.
- Weithiau, byddwn angen peth amser i ystyried sut orau i oresgyn yr anhawster a all fod yn rhwystro person rhag derbyn gwasanaeth, er enghraifft lle mae ystyriaethau ymarferol yn ei gwneud yn anodd gweithredu'r addasiad a geisiwyd. Bryd hynny, dylai'r aelod perthnasol o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu'r person sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru egluro'r sefyllfa gan roi amcan o'r amser a gymer i ystyried y mater ymhellach.

## Sut y penderfynwn beth sy'n "rhesymol"

- Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio "rhesymol". Fodd bynnag, awgryma canllaw o eiddo'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mai dyma'r ffactorau mwyaf perthnasol i'w cofio wrth ystyried gwneud addasiad neu beidio:
  - A fydd yr addasiad o gymorth i oresgyn anhawster y person dan sylw?** Gan amlaf bydd yr addasiad yn amlwg yn helpu person i oresgyn ei anhawster wrth ddelio â ni fel awdurdod cyhoeddus a darparwr gwasanaethau. Lle nad yw hyn yn eglur, efallai y gofynnwn am esboniad sut y byddai'r addasiad o gymorth. Os na dderbyniwn eglurhad yn esbonio sut y byddai'r addasiad o gymorth, efallai y gwrthodwn wneud yr addasiad.
  - Pa mor ymarferol yw gwneud yr addasiad?** Bydd ystyried a yw addasiad yn ymarferol, yn cynnwys pwysu a mesur a yw'n dechnegol ymarferol, a ellir ei wneud o fewn yr amserlen berthnasol ac a yw'n cyd-fynd ag oblygiadau cyfreithiol eraill.
  - Faint o adnoddau fydd eu hangen i wneud yr addasiad?** Er ei bod yn aml yn rhesymol gwario rhywfaint yn rhagor, pe bai'r addasiad er enghraifft yn cynyddu cost cynnal archwiliad yn aruthrol, efallai na fyddai'n rhesymol ei weithredu.

- 
- **A fyddai'r addasiad yn amharu ar bobl eraill?** Pe bai'r addasiad a geisiwyd, er enghraifft, yn rhwystro pobl eraill rhag cael mynediad at wasanaethau'r corff sy'n cael ei archwilio, go brin y byddai'r addasiad yn rhesymol.

## **Cwyno ynghylch penderfyniadau'n ymwneud ag addasiadau rhesymol**

12. Os cred person sy'n gofyn am addasiad fod ein hymateb yn anfoddfaol, gall wneud cwyn yn unol â [Polisi Gwneud Cwyn](#) Swyddfa Archwilio Cymru.

## **Monitro**

13. Byddwn yn cofnodi a monitro ceisiadau am addasiadau rhesymol, gan nodi'r ffordd y gwnaethom ymateb. Os yw staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn ceisiadau am addasiadau, rhaid iddynt anfon copiâu o'r ceisiadau neu nodiadau amdanynt at y Rheolydd Cynllunio ac Adrodd, ynghyd â gwybodaeth am y ffordd yr ymatebwyd. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r addasiadau a wnawn a'n helpu i weld a oes unrhyw gamau ehangach y gallwn eu cymryd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithredu.